Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# P-05-1441: Dylai Cadw roi gwarchodaeth statudol i Dderwen Adwy’r Meirwon fel coeden hynafol

Y Pwyllgor Deisebau | 16 Medi 2024
Petitions Committee | 16 September 2024

**Cyfeirnod:** SR24/8813-8

**Rhif y ddeiseb**: P-05-1441

**Teitl y ddeiseb:** Dylai Cadw roi gwarchodaeth statudol i Dderwen Adwy’r Meirwon fel coeden hynafol

**Geiriad y ddeiseb:** Mae’r Goeden hynafol hon, sydd dros fil o flynyddoedd oed, yn fregus iawn ar ôl i droseddwyr dargedu sawl coeden yn ddiweddar.

Mae’r goeden yn cynrychioli man pwysig sy’n gysylltiedig â Brwydr Crogen ym 1165. Dylai’r goeden gael gwarchodaeth CADW.

Mae’r goeden mewn lleoliad bregus iawn ger Clawdd Offa yn sir Wrecsam ger y Waun.

## 1. Cefndir

Coeden hynafol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam yw Derwen Adwy'r Meirwon. Mae hi wedi’i lleoli ym mharc Castell y Waun ger Clawdd Offa, a safle Brwydr Crogen 1165. Dywedir bod y goeden dros 1,000 o flynyddoedd oed, ac wedi'i henwi ar gyfer safle claddu tybiedig sy'n gysylltiedig â'r frwydr y bu'n dyst iddi.

Yn 2014, daeth Derwen Adwy'r Meirwon yn nawfed mewn cystadleuaeth 'coeden y flwyddyn' ar draws Ewrop. Coed Cadw a'i cynigiodd i gymryd rhan yn y gystadleuaeth.

Er nad oes gan Cadw unrhyw bwerau i warchod coed penodol, mae Derwen Adwy'r Meirwon yn eistedd o fewn parc Castell y Waun, sydd ar y gofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol a gedwir gan Weinidogion Cymru.

Fe wnaeth *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016* ddiwygio *Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979* er mwyn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chadw cofrestr o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru, gan gynnwys parciau a gerddi.

Fel y cyfryw, daeth y gofrestr statudol i rym ar 1 Chwefror 2022, gan ddisodli cofrestr anstatudol flaenorol. Nid yw'r gofrestr statudol yn gosod unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol newydd ar barciau a gerddi hanesyddol Cymru, nac ychwaith yn cyflwyno trefn gydsynio newydd. Mae safleoedd cofrestredig yn parhau i gael y lefel bresennol o warchodaeth, a hynny drwy'r system gynllunio

At hynny, mae'r goeden yn ddarostyngedig i Orchymyn Diogelu Coed (neu TPO). Mae'r gorchymyn hwnnw'n gwahardd torri, dadwreiddio, tocio, difrodi neu ddinistrio coeden yn fwriadol, heb ganiatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fe wnaeth *Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023* ddiwygio *Deddf Coedwigaeth 1967* i godi dirwy ddiderfyn am dorri coed yn anghyfreithlon.

# 2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Fe wnaeth Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, ar y pryd, anfon llythyr at y Pwyllgor yn nodi'r amddiffyniadau presennol ar gyfer y goeden. Nododd y llythyr fod polisi cynllunio cenedlaethol Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, wedi'i ddiweddaru i gryfhau amddiffyniad ar gyfer pob coeden, gan gynnwys coetir hynafol a choed hynafol, hynod a threftadaeth unigol.

Yn ôl y llythyr, TPO, y mae'r goeden yn destun iddo, yw'r amddiffyniad mwyaf effeithiol i goeden ar hyn o bryd.

Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru "wedi ymrwymo'n gadarn" i warchod coed a choetiroedd hynafol. Dywedodd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, wrthi'n ystyried y dull o gryfhau amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd hynafol.

# 3. Camau gan Senedd Cymru

Roedd deiseb flaenorol, P-06-1306 Mwy o ddiogelwch i goed hynafol a hynod yng Nghymru. Gall hen goed gael eu symud. Rhaid rhoi'r gorau i dorri coed, yn galw am fwy o amddiffyniad i goed hynafol a hynod yn y system gynllunio. Ystyriodd y Pwyllgor Deisebau fod y ddeiseb hon wedi'i chwblhau yn ei gyfarfod ar 3 Gorffennaf 2023, gan nodi bod Bil Amaethyddiaeth (Cymru) wedi pasio cyfnod 4 y broses ddeddfwriaethol.

Trafodwyd mwy o amddiffyniad i goetir hynafol a choed hynod yn ystod taith Bil Amaethyddiaeth (Cymru) drwy'r Senedd. Fe wnaeth Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig argymell yng nghyfnod 1 y dylai Lesley Griffiths AS, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, nodi sut y byddai mwy o amddiffyniad i goetir hynafol a choed hynod yn cael sylw.

Ymatebodd y Gweinidog, gan nodi'r angen i gymryd agwedd gyfannol. Nododd welliannau y byddai'r Bil yn eu gwneud i *Ddeddf Coedwigaeth 1967* i ddarparu'r gallu i ychwanegu amodau safle-benodol, neu bwrpasol, at drwyddedau cwympo coed, lle bo'n briodol. At hynny, nododd newidiadau i bolisi cynllunio (gweler uchod), a gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu Coedwig Genedlaethol Cymru a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.